# MOLD TOWN COUNCIL
# CYNGOR TREF YR WYDDGRUG

Unit 10
Daniel Owen Precinct
Mold
Flintshire
CH7 1AP

Telephone: 01352 758532
Fax: 01352 755804

Uned 10
Canolfan Daniel Owen
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1AP

Ffôn: 01352 758532
Ffacs: 01352 755804

www.moldtowncouncil.org.uk

**Aelodau Cyngor Tref yr Wyddgrug**

19$^{eg}$ Mehefin 2026

Aelodau'r Cyngor

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gelwir trwy hwn i gyfarfod Cyngor Tref yr Wyddgrug a gynhelir am **6.00pm ar 24$^{ain}$ Mehefin, 2026** yn Swyddfeydd y Cyngor Tref, Uned 10 Canolfan Daniel Owen neu drwy Gynhadledd Fideo, gwelwch y ddolen isod.

Yn gywir iawn,

Clerc y Dref a Swyddog Cyllid

## AGENDA

### CYFRANOGAETH Y CYHOEDD

Mae croeso i aelodau'r cyhoedd siarad am eitemau sydd wedi eu rhestru ar yr agenda. Clustnodir hyd at 15 munud, heb roi mwy na 5 munud i bob pwnc.

Yn ôl disgresiwn y Cadeirydd, gall aelod o'r cyhoedd godi mater nad yw ar yr agenda am hyd at 5 munud. Ni chaiff y Cyngor wneud penderfyniadau na thrafod eitemau nad ydynt at yr agenda yn y cyfarfod, ond gellir gwneud nodyn o'r rhain i dderbyn ystyriaeth yn y dyfodol.

Gall y Cadeirydd ymyrryd i gadw trefn, atal sylwadau amherthnasol neu amharchus, neu ohirio'r cyfarfod os oes raid.

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

**Derbyn** yr ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

**Derbyn** unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb sy'n hysbys am eitemau ar yr agenda.

**3. CYHOEDDIADAU'R MAER**

**Derbyn** Cyhoeddiadau'r Maer.

**4. COFNODION**

4.1 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd ar 27$^{ain}$ Mai 2026 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.2 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 1$^{af}$ Mehefin 2026 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.3. **Derbyn** cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Mynwentydd a gynhaliwyd ar 10$^{fed}$ Mehefin 2026 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

**5. Y RHESTR WEITHREDU**

**Nodi'r** Rhestr Weithredu ddiweddaraf sydd ynghlwm.

**6. GOHEBIAETH**

(i) **Nodi'r** ohebiaeth sydd ynghlwm gan Darren Morris, Datblygu Chwarae, Cyngor Sir y Fflint

(ii) **Nodi'r** adroddiad sydd ynghlwm: Adolygiad Cymunedol 2025 – Adroddiad Argymhellion Terfynol

**7. ADRODDIADAU SWYDDOGION**

(i) **Derbyn** adroddiad gan y Swyddog Digwyddiadau ac Ymgysylltiad Cymunedol (ynghlwm).

(ii) **Derbyn** adroddiad gan Glerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (ynghlwm).

**8. FFURFLEN LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD FLYNYDDOL (AGAR) 2025/26**

**Derbyn** ac **ystyried** y Ffurflen Llywodraethu ac Atebolrwydd Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31$^{ain}$ Mawrth 2026 a **phenderfynu**:

- Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Cymeradwyo'r Datganiadau Cyfrifyddu.
- Awdurdodi'r Maer i lofnodi'r AGAR ar ran y Cyngor.
- Cymeradwyo a chyhoeddi'r Hysbysiad o Hawliau Etholwyr yn unol â’r gofynion statudol.

**9. Y CYNLLUN GWEITHREDU IECHYD A DIOGELWCH**

**Ystyried** a **chymeradwyo'**r Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch sydd ynghlwm a baratowyd yn dilyn yr archwiliad iechyd a diogelwch blynyddol a gynhaliwyd gan ymgynghorwyr iechyd a diogelwch y Cyngor, WorkNest. Hefyd i awdurdodi cymryd y camau gweithredu a argymhellir.

**10. POLISI A LLAWLYFR IECHYD A DIOGELWCH**

**Cytuno**, yn dilyn yr Archwiliad Iechyd a Diogelwch blynyddol a gynhaliwyd gan ymgynghorwyr iechyd a diogelwch y Cyngor, WorkNest, a'u hargymhelliad, nad oes angen gwneud unrhyw ddiwygiadau i Bolisi Iechyd a Diogelwch na Llawlyfr Iechyd a Diogelwch y Cyngor ar hyn o bryd. (Mae’r dogfennau ynghlwm).

**10. CYMORTHFEYDD Y CYNGOR TREF**

Ar ôl ystyried y mater hwn yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor Tref, **ystyried** yr adroddiad sydd ynghlwm a phenderfynu a ddylid cyflwyno cymorthfeydd y Cyngor Tref, gan gynnwys trefniadau ar gyfer eu gweithrediad, amlder a lleoliad.

**11. MYNWENT YR WYDDGRUG, PEN-BLWYDD YN 150**

**Ystyried** yr adroddiad sydd ynghlwm, a gyflwynwyd yn flaenorol i’r Pwyllgor Mynwentydd ar 10 Mehefin 2026, ynghylch 150$^{fed}$ Pen-blwydd Mynwent yr Wyddgrug.

**Sefydlu** Gweithgor i archwilio a datblygu cynigion ar gyfer coffáu'r pen-blwydd, gan gynnwys digwyddiadau, gweithgareddau, cyhoeddiadau a chyfleoedd posibl i ymgysylltu â’r gymuned.

**12. ARGYMHELLIAD Y PWYLLGOR MYNWENTYDD**

**Ystyried** argymhelliad y Pwyllgor Mynwentydd y dylid mabwysiadu'r dogfennau canlynol yn ffurfiol (ynghlwm):

(i) Datganiad Hygyrchedd, Polisi Archwilio a Chynhwysiant – Mynwent yr Wyddgrug
(ii) Cyngor Tref yr Wyddgrug – Cynllun Dirprwyo – Mynwent yr Wyddgrug

**14. HYSBYSIAD CYNLLUNIO**

**Nodi’r** adroddiad sydd ynghlwm.

**15. CYFRIFON/ TALIADAU**

**Cymeradwyo'r** amserlenni sydd ynghlwm sy'n dangos y cyfrifon i gyd – Mis 2, yn nodi bod taliadau'n cael eu gwneud yn unol â phwerau'r cynghorau lleol.

**CYFARWYDDIADAU ZOOM**

Ymuno â'r Cyfarfod Zoom

https://us02web.zoom.us/j/81710049564?pwd=NvWQANBADjcJTz7uTnx9QoLsV8FCx1.1

**ID y Cyfarfod: 817 1004 9564**
**Cyfrinair: 391069**